O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1800 (Cy. 182) (C. 74)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2013 i'r graddau nad yw'r adrannau hynny eisoes mewn grym ar 19 Gorffennaf 2013.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym ar 1 Hydref 2013 y darpariaethau a ganlyn:

(a) Pennod 2 o Ran 3 (cynigion trefniadaeth ysgolion);

(b) Pennod 3 o Ran 3 (rhesymoli lleoedd ysgol);

(c) Pennod 4 o Ran 3 (darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig);

(d) Pennod 5 o Ran 3 (cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth);

(e) Pennod 6 o Ran 3 (darpariaethau amrywiol ac atodol);

(f) Atodlen 2 (newidiadau rheoleiddiedig);

(g) Atodlen 3 (gweithredu cynigion statudol);

(h) paragraffau 1 i 7 a pharagraffau 9 i 39 o Atodlen 4 (gweithredu cynigion i newid categori ysgol);

(i) adran 99 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan Ran 2 o Atodlen 5; a

(j) Rhan 2 o Atodlen 5.

Mae erthygl 4 o’r Gorchymyn hwn yn arbed amryw ddarpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (“Deddf 1998”) mewn perthynas ag:

(a) cynigion trefniadaeth ysgolion a gyhoeddir o dan adrannau 28, 29, 31 a 35 o Ddeddf 1998 cyn 1 Hydref 2013;

(b) hysbysiad gan gorff llywodraethu i derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gyflwynir o dan adran 30 o Ddeddf 1998 cyn 1 Hydref 2013; ac

(c) cyfarwyddyd sy’n ei gwneud yn ofynnol i ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig gael ei therfynu a roddir o dan adran 32 o Ddeddf 1998 cyn 1 Hydref 2013.

Mae erthygl 5 o’r Gorchymyn hwn yn darparu hyd nes bod adran 21(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 wedi cychwyn fod y cyfeiriad at ysgol ffederal yn adran 78 o Ddeddf 2013 i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at “federated school” yn adran 24(2) o Ddeddf Addysg 2002.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 38, 39, 97 a 98 | 26 Ebrill 2013 i’r graddau y mae’r darpariaethau hynny yn ymwneud â gwneud a gosod y Cod Trefniadaeth Ysgolion | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |
| 97 a 98 | 4 Mai 2013 yn llawn | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1800 (Cy. 182) (C. 74)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2013

*Gwnaed* *16 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 100 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**); ac

ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 19 Gorffennaf 2013**

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2013 i rym yw 19 Gorffennaf 2013, i'r graddau nad yw'r adrannau hynny eisoes mewn grym.

(**1**) 2013 dccc 1.
(**2**) 1998 p.31.

**Darpariaethau sy’n dod i rym ar 1 Hydref 2013**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5 y diwrnod penodedig ar gyfer dod â’r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2013 i rym yw 1 Hydref 2013—

(a) Pennod 2 o Ran 3 (cynigion trefniadaeth ysgolion);

(b) Pennod 3 o Ran 3 (rhesymoli lleoedd ysgol);

(c) Pennod 4 o Ran 3 (darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig);

(d) Pennod 5 o Ran 3 (cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth);

(e) Pennod 6 o Ran 3 (darpariaethau amrywiol ac atodol);

(f) Atodlen 2 (newid rheoleiddiedig);

(g) Atodlen 3 (gweithredu cynigion statudol);

(h) paragraffau 1 i 7 a pharagraffau 9 i 39 o Atodlen 4 (gweithredu cynigion i newid categori ysgol);

(i) adran 99 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i’r graddau y mae’n ymwneud â’r diwygiadau a wneir gan Ran 2 o Atodlen 5; a

(j) Rhan 2 o Atodlen 5.

**Arbedion mewn perthynas â Phennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 1998**

**4.** Er bod Penodau 2 a 6 o Ran 3 o Ddeddf 2013 a’r diddymiadau canlyniadol yn Rhan 2 o Atodlen 5 i’r Ddeddf honno yn dod i rym—

(a) bydd darpariaethau adrannau 28, 29, 31 a 35 o Ddeddf 1998 ac Atodlenni 6 ac 8 iddi yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gynigion a gyhoeddir o dan yr adrannau hynny cyn 1 Hydref 2013;

(b) bydd darpariaethau adran 30 o Ddeddf 1998 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 30 o Ddeddf 1998 cyn 1 Hydref 2013;

(c) bydd darpariaethau adran 32 o Ddeddf 1998 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddwyd a roddir o dan yr adran honno cyn 1 Hydref 2013; a

(d) bydd darpariaethau adran 33 o Ddeddf 1998 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â chynigion a gyhoeddir o dan adrannau 28, 29, 31 neu 35 o Ddeddf 1998 cyn 1 Hydref 2013.

**Darpariaeth Drosiannol**

**5.** Hyd nes bod adran 21(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**) wedi cychwyn mae'r cyfeiriad at ysgol ffederal yn adran 78 o Ddeddf 2013 i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at "federated school" yn adran 24(2) o Ddeddf Addysg 2002(**2**).

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2013

(**1**) 2011 mccc 7.
(**2**) 2002 p.32.